# Cefnogi a Rheoli Gwirfoddolwyr



## Cynefino gwirfoddolwyr

Pan fydd gwirfoddolwr newydd yn ymuno â'r mudiad, mae angen i chi gael proses ar waith i roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arno i ddod i adnabod eich mudiad a theimlo'n gartrefol. Dylai cynefino gynnwys mwy na rhoi polisïau i wirfoddolwyr eu darllen a'u cyflwyno i wirfoddolwyr eraill a staff. Gall cael y broses gynefino'n gywir helpu eich mudiad i gadw ei wirfoddolwyr am hirach a sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael profiadau positif a gwobrwyol.



### Recriwtio, Dethol a Chynefino Gwirfoddolwyr.

Gallwch gael manylion ar beth i'w gynnwys yn eich proses gynefino yn ein taflen wybodaeth, Recriwtio, Dethol a Chynefino Gwirfoddolwyr.



### Cytundeb Enghreifftiol ar gyfer Gwirfoddolwyr

Un o'r elfennau o gynefino gwirfoddolwyr a argymhellir yw defnyddio 'Cytundeb Gwirfoddolwyr', i helpu i amlinellu'r hyn a ddisgwylir gan y gwirfoddolwr a'r hyn y gall y gwirfoddolwr ei ddisgwyl gennych chi. Edrychwch ar ein Cytundeb Enghreifftiol ar gyfer Gwirfoddolwyr y gallwch chi ei ddefnyddio fel templed.

## Cefnogaeth a goruchwyliaeth

Bydd angen cefnogaeth ar wirfoddolwyr gan y mudiad i'w galluogi i wneud eu rolau'n dda. Bydd y lefel briodol o gefnogaeth a goruchwyliaeth yn dibynnu ar y rôl a'r amgylchiadau, y dylech eu hasesu o ran risg.

Ffordd dda o oruchwylio gwirfoddolwyr yw trefnu 'sgyrsiau' rheolaidd i siarad am eu profiadau gwirfoddoli, unrhyw lwyddiannau neu anawsterau ac unrhyw gefnogaeth neu hyfforddiant y maen nhw'n teimlo sydd eu hangen arnynt. Bydd hyn yn eich galluogi i ddeall sut mae pethau'n mynd a dod i adnabod y gwirfoddolwr, ac mae'n rhoi cyfle iddo ef roi adborth.

Gwnewch yn si  r fod pawb yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am oruchwylio gwirfoddolwyr.

Dylech wneud yn si  r bod gwirfoddolwyr yn gwybod pwy i gysylltu ag ef os oes ganddyn nhw broblem, a phryd mae'r help hwn ar gael.

Bydd rhai rolau gwirfoddol yn haws eu goruchwylio nag eraill. Bydd angen i chi wneud yn si  r bod yr oruchwyliaeth yn briodol i'r rôl ac yn caniatáu i'r gwirfoddolwr fod mor annibynnol â phosibl a bod y rôl yn rhoi profiad positif iddyn nhw.

## Hyfforddi gwirfoddolwyr

Cyfrifoldeb eich mudiad yw gwneud yn si  r y gall gwirfoddolwyr wneud eu rôl. Un ffordd o wneud yn si  r eu bod yn fwy na pharod ar ei chyfer yw cynnig hyfforddiant anffurfiol neu ffurfiol (yn dibynnu ar y rôl).

Cadwch yr hyfforddiant yn berthnasol ac yn briodol i rôl y gwirfoddolwr a'i sgiliau a phrofiad cyfredol. Bydd hyn yn osgoi cymryd gormod o amser y gwirfoddolwr. Mae hefyd yn sicrhau nad yw'r hyfforddiant yn cael ei weld fel bonws neu wobr, a allai wneud i'r gwirfoddoli edrych fel gwaith â thâl.

Os yw eu hyfforddiant yn dda, bydd gwirfoddolwyr yn teimlo'n fwy abl i wneud eu rôl. Bydd hyn yn debygol o wneud iddynt eisiau parhau i wirfoddoli.

Gallwch chi hefyd gynnig cyfleoedd datblygu i wirfoddolwyr sydd â diddordeb mewn cynyddu eu sgiliau a'u profiad er mwyn ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau neu symud ymlaen i rôl wirfoddoli arall. Gall y math hwn o gefnogaeth i wirfoddolwyr fod yn bwysig o ran cadw diddordeb a boddhad gwirfoddolwyr.

## Treuliau gwirfoddolwyr

Mae'n arfer da i ad-dalu gwirfoddolwyr am dreuliau parod. Gellir cynnwys manylion yr hyn y gellir ei hawlio, a sut, yn eich polisi gwirfoddoli, neu eu cynnwys mewn polisi ar wahân. Bydd angen ffurflen hawlio ar wirfoddolwyr i hawlio eu treuliau, a all fod am dreuliau ymlaen llaw, neu ar ôl y digwyddiad.



### Treuliau Gwirfoddolwyr

Mae ein taflen wybodaeth, Treuliau Gwirfoddolwyr, yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut i fynd ati i wneud hyn a gallwch chi addasu ein Polisi Treuliau Enghreifftiol fel y bo'n addas i'ch mudiad.



## Polisi Treuliau Enghreifftiol

Gallwch chi addasu ein Polisi Treuliau Enghreifftiol fel y bo'n addas i'ch mudiad.

Noder, mae'n bwysig nad ydych chi'n talu treuliau y tu hwnt i'r costau gwirioneddol yr aeth gwirfoddolwyr iddynt.

# Diolch i wirfoddolwyr

Mae'n bwysig bod gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gwybod bod eu cyfraniad i'ch mudiad yn cael ei werthfawrogi.

Byddai llawer o wirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser o'u gwirfodd i achos sy'n agos at eu calonnau yn gwerthfawrogi cael 'diolch' syml.

Meddyliwch am y ffordd orau o ddweud diolch i wirfoddolwr, yn dibynnu ar amgylchiadau a diwylliant y mudiad a phersonoliaethau eich gwirfoddolwyr. Efallai y byddai rhai unigolion yn gwerthfawrogi diolch cyhoeddus, ond efallai byddai hyn yn gwneud pobl eraill yn annifyr. Os ydych chi'n tynnu sylw at unigolion, gwnewch yn si r na fydd yn digio pobl na fydd yn cael diolch! Weithiau, gall diolch cyffredinol i ddathlu gwaith y tîm cyfan fod orau.

# Cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel

Mae gennych chi gyfrifoldebau dros wirfoddolwyr i'w cadw'n ddiogel. Mae hyn yn ymwneud â'u hiechyd a diogelwch, ynghyd â phryderon diogelu ehangach.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut i fynd i'r afael â'r materion hyn yn ein hadrannau Iechyd a Diogelwch a Diogelu.



## Cadw Gwirfoddolwyr yn Ddiogel.

Edrychwch hefyd ar ein taflen wybodaeth,

Cadw Gwirfoddolwyr yn Ddiogel.

# Ymdrin â phroblemau

Er ein bod yn gobeithio y byddwch chi'n gallu cynnig cyfleoedd gwirfoddoli gwobrwyol a gwerth chweil i wirfoddolwyr, gall pethau fynd o chwith weithiau.

Fel arfer, dylech geisio ymdrin â sefyllfaoedd anodd yn anffurfiol os yn bosibl, drwy siarad â'r rheini dan sylw, cael eglurhad o'r problemau a dod i gonsensws. Weithiau, fodd bynnag, nid yw hyn yn ddigon. Cynghorir mudiadau i gael 'gweithdrefnau datrys problemau' yn eu lle sy'n benodol i wirfoddolwyr.

Dylai eich dull o fynd ati i ymdrin â chwynion, anawsterau a phroblemau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr ffurfio rhan o sesiynau cynefino gwirfoddolwyr a staff (ynghyd â pholisïau perthnasol eraill). Diben hyn yw sicrhau bod pawb yn gwybod y safonau a ddisgwylir a pha gamau gellid eu cymryd os na lynir at y rhain. Os ydych chi wedi llofnodi 'cytundeb gwirfoddolwr', gall hon fod yn ddogfen ddefnyddiol i gyfeirio yn ôl ati.

Mae prosesau goruchwylio, cefnogi a monitro da i gyd yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau mor gyflym â phosibl.



## Rheoli Pryderon sy'n ymwneud â Gwirfoddolwyr

Mae ein taflen wybodaeth, Rheoli Pryderon sy'n ymwneud â Gwirfoddolwyr, yn edrych ar rai mathau o broblemau sy'n

codi'n aml, a sut gall eich mudiad fod yn barod i ymdrin ag anawsterau mewn modd teg, cyson, tryloyw a pharchus.

Dylech wneud yn si r eich bod yn dilyn eich polisïau a'ch gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ffurfiol. Yn dibynnu ar ddifrifoldeb y broblem, efallai y bydd angen i chi dynnu eich bwrdd ymddiriedolwyr neu bwyllgor rheoli i mewn i'r mater neu ofyn cyngor Adnoddau Dynol.

Efallai y bydd cydweithwyr yn eich CVC lleol hefyd yn gallu rhoi rhywfaint o arweiniad i chi os bydd pethau'n mynd o chwith.

**Rhagor o wybodaeth**

Mae ein taflen wybodaeth, Sut i Sicrhau Bodlonrwydd Gwirfoddolwyr, yn rhoi trosolwg o'r materion sy'n cyfrannu at foddhad gwirfoddolwyr a beth all eich mudiad ei wneud i greu profiad positif i'r gwirfoddolwr.

Mae ein cwrs e-ddysgu am ddim, Rheolaeth a Chymorth ar gyfer gwirfoddoli, yn cynnig rhai argymhellion ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau yn ein hadran, Rhedeg eich mudiad.

## Gwella eich ymarfer – Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yw safon ansawdd y DU ar gyfer arferion da wrth reoli gwirfoddolwyr.

Os ydych chi eisiau asesu ansawdd eich ymdrechion i reoli a chynnwys gwirfoddolwyr, profi a gwella effeithiolrwydd eich gwaith gyda gwirfoddolwyr, a gwella enw da eich mudiad, y safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yw'r fframwaith delfrydol.

Mae cyflawni'r safon yn dangos i'ch gwirfoddolwyr – a'ch darpar wirfoddolwyr – faint y maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi ac yn rhoi hyder iddynt yn eich gallu i gynnig profiad rhagorol i wirfoddolwyr.

I lawrlwytho copi am ddim o'r fframwaith Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr, neu i ddysgu mwy am sut i gyflawni'r nod ansawdd, ewch i'r wefan (Saesneg yn unig).